

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ionawr 11 2022

18.30 – 19.00

Oherwydd camddealltwriaeth ni chafwyd anerchiad gan Garem Jackson, Pennaeth Addysg Gwynedd a'r Cynghorydd Cemlyn Williams. Bydd y Clerc yn ail-drefnu dyddiad a lleoliad.

19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref

Presennol :- Cynghorwyr :- Malcolm Humphreys, Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Richard Williams, Gwilym Jones, Jason Humphreys, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Dr Melfyn Edwards, Bethan Rees Jones, Stuart Nashir-Hallard
Marian Roberts (Clerc)

234.1.22 Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr : Dr Simon Brooks, Carol Hayes, Nia Jeffreys, Ian Wyn Jones, Linda Wyn Roberts

Absennol :- Cynghorydd Alwyn Gruffydd

- Roedd y Clerc yn dymuno cofnodi bod Cofnodion y Cyngor Tref o 1994 i 2008 wedi cael eu trosglwyddo i ofal yr Archifdy yng Nghaernarfon ers 17.12.2021. Diolchodd y Cadeirydd iddi am ofalu bod y Cofnodion yn cael eu storio a'u cadw yn ddiogel.
- Gofynnodd y Clerc am ganiatâd y Cadeirydd i recordio'r cyfarfod er mwyn cywirdeb cofnodion. Cytunodd y Cadeirydd i'r cais i recordio'r cyfarfod.

235.1.22. Adroddiad y Cadeirydd.

Dechreuodd y Cadeirydd drwy ddymuno Blwyddyn Newydd dda i'r Cynghorwyr. Roedd yn gobeithio fod pawb wedi cael cyfle i ddal i fyny efo theulu a ffrindiau dros y gwyliau ac wedi cael cyfle i orffwys. Roedd yn gobeithio am egni i'r flwyddyn newydd i gyflawni gwaith y Cyngor Tref. Diolchodd i'r Clerc ac aelodau o'r Cyngor Tref am gyd weithio i osod plac efydd ar fainc goffa Glenda Burke, ffrind a chyn-Glerc y Cyngor, yn y Parc. Roedd yn gwerthfawrogi'r cyd-weithrediad ac yn meddwl fod y plac yn hardd ac yn fodd teilwng iawn i gofio am Glenda.

Cyfeiriodd at y ffaith iddo roi ei ganiatâd i recordio'r cyfarfod. Er iddo fod yn erbyn recordio pan drafodwyd y syniad yn y gorffennol roedd wedi newid ei feddwl ar ôl derbyn cyngor gan Un Llais Cymru a Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Gwynedd ynglyn â'r mater. Dywedodd fod y rhan fwyaf o Gynghorau Tref a Chymuned yn recordio eu cyfarfodydd bellach ac mai'r Cadeirydd sydd â'r hawl i roi caniatâd i recordio neu beidio. Mae copi o'r recordiad yn cael ei gadw ar Teams am 21 diwrnod wedi'r

cyfarfod ac wedyn yn cael ei ddileu yn awtomatig. Roedd yn dyfynnu geiriau Iwan Evans ac "yn derbyn fod recordio bellach yn rhan o sut mae'r cyhoedd a'r wasg yn cyd berthnasu a chyfarfod." Eglurodd ei fod yn ffordd o amddiffyn y Corff fel Cyngor a'r Cynghorwyr fel unigolion. Dyma oedd y cefndir ac roedd yn dymuno i'r Cyngor ddeall y rhesymeg tu ôl i'w benderfyniad i recordio cyfarfodydd o hyn ymlaen. Roedd yn awyddus i recordio er mwyn sicrhau fod Cynghorwyr yn ymddwyn yn barchus ac yn broffesiynol tuag at ei gilydd. Roedd yn siomedig iawn gyda chyfarfod mis Rhagfyr a teimlai nad oedd y cyfarfod wedi dangos y Cyngor Tref ar ei orau. Bydd rhaid dysgu o hyn er mwyn sicrhau gwell ymddygiad yn y dyfodol. Eglurodd fod y Clerc wedi ebostio i'r Cynghorwyr gopi o'r Cod Ymddygiad ac roedd yn annog yr aelodau i'w ddarllen. Nododd mai'r 3 pwynt pwysig oedd y dylid dangos parch; peidio ymddwyn fel bwli; a pheidio ag anwybyddu dyfarniad y Cadeirydd gan mai ei ddyletswydd o ydi cadw trefn ar y rhaglen a'r cyfarfod er mwyn cyflawni busnes y Cyngor Tref. Roedd yn gobeithio fod yr aelodau am barchu hynny yn ystod cyfarfod heno ac yng nghyfarfodydd y dyfodol.

236.1.223 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

➤ Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Rhagfyr 14 2021

Cyrhaeddodd y Cyng Stuart Nashir-Hallard a'r Cyng Malcolm Humphreys i'r cyfarfod.

Roedd y Cyng Jason yn gofyn am bleidlais gofrestrdig ar gywirdeb y cofnodion.

Pleidleiswyd fel a ganlyn :-

Cyng Jason Humphreys – yn erbyn

Cyng Selwyn Griffiths – o blaid

Cyng Stuart Nashir Hallard – atal ei bleidlais gan mai newydd gyrraedd y cyfarfod oedd o

Cyng Dr Melfyn Edwards – o blaid

Cyng Gwilym Jones – o blaid

Cyng Bethan Rees Jones – o blaid

Cyng Richard Williams – o blaid

Cyng Malcolm Humphreys – wedi ymddiheuro am orfod gadael y cyfarfod yn fuan

Cyng Llywelyn Rhys – o blaid

Cyng Aled Griffith – o blaid

Cynigiodd y Cyng Richard Williams fod y Cofnodion yn gywir ac eilwyd gan y Cyng Selwyn Griffiths.

Cafwyd y Cofnodion yn gywir felly ac ymddiheurodd y Cyng Jason Humphreys am orfod gadael y cyfarfod.

237.1.22 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cynghorwyr Richard Williams a Dr Melfyn Edwards – mater 254.1.22 Cais Cynllunio
Ralph Street, Borth y Gest

Materion i'w dwyn gerbron :-

238.1.22 Cyng Jason Humphreys :- Cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Parc.

Yn absenoldeb y Cyng Jason Humphreys penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y

cyfarfod nesaf ar Chwefror 8 2022.

239.1.22 Cynghorwyr Llywelyn Rhys a Selwyn Griffiths yn adrodd yn ôl ar gyfarfod gyda Mabon ap Gwynfor a Liz Saville-Roberts ar 20.12.21 ynglyn â mater cau Banc Barclays, Porthmadog.

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod rhwng Mabon ap Gwynfor, dau aelod o staff Banc Barclays a'r Cynghorwyr Nia Jeffreys, Llywelyn Rhys a Selwyn Griffiths – roedd Liz Saville-Roberts yn absennol o'r cyfarfod. Roeddent yn amlinellu'r ffaith fod penderfyniad cau Banc Barclays wedi ei wneud yn ganolog cyn gwneud datganiad cyhoeddus am y peth ac nad oedd troi nôl are eu penderfyniad. Yr eglurhad a gafwyd dros gau y banc oedd bod llai a llai o ddefnydd ohono oherwydd twf bancio ar-lein. Cafwyd sôn efallai y bydd Barclays yn darparu fan neu leoliad arall fyddai'n cynnig gwasanaeth bancio yn rhan-amser.

Eglurwyd fod gwasanaeth y peiriant twll yn y wal am ddod i ben hefyd gan fod un yn bodoli eisoes yn HSBC ac yn Tesco.

Mynegwyd anfodlonrwydd ynglyn â hyn gan nodi fod cryn bellter rhwng y ddau beiriant yma ac nad oedd Barclays yn dangos ffyddlondeb i'r dref ond gyda ffocws ar fusnes yn unig. Gan mai tenantiaid yn unig ydi Banc Barclays mynegwyd pryder ynglyn â dyfodol yr adeilad ei hun a nodwyd fod y Cyngor Tref yn awyddus iawn i'r adeilad gael ei warchod ar gyfer busnes arall ac nad oedd neb yn dymuno gweld gwagle ar ei ôl ar y Stryd Fawr.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

240.1.22 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhaglen Chwefror 8 2022 = Ionawr 30 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)*

- **Cyng Jason Humphreys** :- Cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Parc.
- **Cyng Malcolm Humphreys**:- Cynnig llythyru'r Awdurdod lechyd i gwyno am brinder deintyddion NHS ym Mhorthmadog.
- **Cyng Richard Williams**:- Cynnig ail gysylltu efo Sion Bryn Roberts i drefnu ail-sefydlu Clwb leuencid.
- **Cyng Selwyn Griffiths** :- Cynnig llythyru'r Awdurdod lechyd i gwyno fod Fferyllfeydd mewn meddygfeydd yn cael eu cau
- Penderfynu ar leoliad amgen i lechen Tŷ Moelwyn

241.1.22 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a cytunwyd ar y diwygiadau canlynol i'r rhestr : –

11.12.20	Delyth Jewell	Tai fforddiadwy Gofyn am adborth wedi'r cyfarfod nesaf DILEU
22.2.21	Cymdeithas Cae pawb	Gofyn am restr eiddo AIL-YRRU
13.3.21	Gwenan Huws Tomos	156.3.21 Hysbysfwrdd Borth y Gest DILEU
16.4.21	Iwan Evans – Cyngor Gwynedd	181.4.21 Llythyr ac adroddiad am graig Tremadog AIL-YRRU
16.5.21	Adran Amgylchedd	29.5.21 Cyfyngiadau Parcio Y CLERC I AIL EDRYCH
17.7.21	Keith Roberts	74.7.21 Cais am gofnodion Cyfarfod Blynyddol AIL-YRRU
		Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 27.7.21

2.8.21	Steffan Jones	Lloches bws Tesco / Aldi GOFYN CANIATAD ALDI I OSOD HEN LOCHES BWS TESCO AR EU TIR NHW
2.8.21	Steffan Jones	Biniau Cae Bodawen AIL-YRRU
		PWYLLGOR LLAWN 14.9.21
17.9.21	Rachel Carter	111.9.21 Cais am gyflwyniad Powerpoint un unig DILEU

Gohebiaeth :

242.1.22 (a) LOWRI HAF EVANS C.G., Cynhadledd gyswilt rheilffordd arfordir y Cambrian

1(b), , Cwestiynau ar gyfer y Gynhadledd uchod

Eglurodd y Cyng Selwyn Griffiths ei fod am fynychu'r Gynhadledd ar 11.2.2022 yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Sir a **phenderfynwyd gadael y mater yn nwylo Cyng Selwyn Griffiths yn ôl cynnig Cyng Richard Williams**. Cytunodd Cyng Selwyn Griffiths i adrodd yn ôl ar y gynhadledd yng nghyfarfod mis Mawrth.

243.1.22 UN LLAIS CYMRU, Cynhadledd Prynu Gorfodol Cymru 2021

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

244.1.22 JANE HUTT A.S., Saith nod Llesiant

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

245.1.22 (a), REBECA JONES C.G., Ymgynghoriad cyhoeddus : Canllaw Cynllunio Atodol Drafft

(b), , Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd – Ailddatblygu Porthmadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

246.1.22 STEFFAN JONES, Ymateb i 168.11.21 – goleuadau ffordd waelod Borth y Gest

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ysgrifennu'n ôl i ddiolch am ei ymateb a gofyn am bris gosod goleuadau ar hyd y ffordd yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

247.1.22 GARETH ROBERTS C.G., Biniau halen

Mynegwyd boddhâd i glywed fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i lenwi'r biniau halen yn y manau angenrheidiol. Cytunwyd ei fod yn symudiad positif am newid.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac edrych ymlaen i gael gwybodaeth pellach ar y mater.

248.1.22(a), UN LLAIS CYMRU, Ymgynghoriad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etyholiadau 2021

(b), , Copi o'r ddeddf uchod (27 tudalen - copi electronig yn unig)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

249.1.22 GARETH WYN WILLIAMS , Ymateb i 199.12.21 Cwyno am beidio cynnwys

enw CT Porthmadog ar erthygl Nation.Cymru 11.11.21

Mynegwyd siomedigaeth yn yr ymateb ond

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

250.1.22 PHILLIP MORRIS - LIBERTY PROPERTIES, Ymateb i 201.12.21 ail yrru cais i osod llechen Ty Moelwyn

Mynegwyd siom yn ymateb Philip Morris i gais y Cyngor Tref a penderfynwyd rhoi'r mater o benderfynu ar leoliad amgen i osod y llechen yng nghyfarfod mis Chwefror.

Gofynwyd os oedd enw i fod ar yr adeilad ar wahân i "Premier Inn" a cytunwyd y dylai unrhyw enw ar y safle fod yn adlewyrchiad o hanes diwydiannol ac o hunaniaeth yr ardal. Cyfeirwyd at y ffaith mai "Britannia Foundry" oedd yr enw ar y safle cyn adeiladu Tŷ Moelwyn.

Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl i Philip Morris i ofyn os ydynt

- yn bwriadu rhoi enw ar yr adeilad
- angen awgrymiadau am enw i'r adeilad
- yn agored i awgrymiadau gan y Cyngor Tref fyddai'n berthnasol i'r ardal leol yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio. Gadawodd Cyng Stuart Nashir-Hallard y cyfarfod.

251.1.22 CYNG. ALWYN GRUFFYDD, 228.12.21 Ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth tai haf

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth gyda diolchiadau i'r Cyng Alwyn Gruffydd am roi o'i amser i lenwi'r holiadur yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio. Bydd y Clerc yn ebostio'r holiadur ymlaen i'r asiantaeth berthnasol.

252.1.22 HAYDN JONES, Ymateb i 197.12.21 – y Parc

Eglurodd y Cyng Richard Williams fel yr oedd Haydn Jones wedi camddeall y llythyr gwreiddiol gan iddo gyfeirio yn ei ymateb at wagio biniau a chodi sbwriel. Pwysleisiodd Cyng Richard Williams nad oedd cŵyn ganddo ynglyn â hynny ond yn hytrach am safon cynnal a chadw gerddi'r parc – yn benodol safon y gwelyau blodau; y lawntiau; y ffensys; y 'crazy golf'; a bod cyflwr cyffredinol y parc wedi dirywio'n arw.

Penderfynwyd :- ail-ysgrifennu at Haydn Jones yn nodi'r pryderon uchod yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

253.1.22 Materion Ariannol :

Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Rhagfyr 2021	£	00.28
------	------------------------	---	-------

Biliau i'w talu :-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Rhagfyr 2021	£	48.40
2	Marian Roberts	Costau Teithio Rhagfyr 2021	£	5.88
3	Marian Roberts	Cyflog Clerc Rhagfyr 2021	£	639.17
4	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Rhagfyr 2021	£	160.07
5	Y Ganolfan	Gwersi Cymraeg mis Rhagfyr	£	60.00
6	Y Ganolfan	Cyfarfod mis Rhagfyr	£	50.00
7	Bryan Williams, Pwllheli	Plât Efydd mainc goffa Glenda Burke	£	50.00
8	Yr Wylan	Hysbyseb ceisiadau ariannol rhifyn mis Rhagfyr	£	16.00

9	R.J.Electrics	Gwasanaeth Goleuadau Nadolig	£ 676.58
10	Xerox	Llogi llungopiwr 1/2/22 i 30/4/22	£ 126.00

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac awdurdodi'r taliadau uchod yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

254.1.22 Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais .: C21/1237/44/LL (wedi ebostio 29.12.21)

Lleoliad : **Shell Porthmadog Service Station**, Porthmadog, LL49 9NG

Bwriad I: Gosod tanc disel 10,000 litr uwchben y ddaear wedi ei amgau gyda ffens bren astellog clos a gwahanfur Armco o ddu galfanedig

PENDERFYNIAD :- GWRTHWYNEBU am y rhesymau canlynol :-

- **Diffyg wybodaeth am y cais**
- **Pryderon iechyd a diogelwch oherwydd :-**
 1. **byddai'r tanc mor agos i dŷ cyfagos**
 2. **byddai'r tanc mor agos i lein Rheilffordd Ffestiniog**
 3. **byddai'r tanc yn dal 10,000Litr o Diesel sef 10 gwaith tanc tanwydd domestig**

(b) Rhif Cais .: C21/1212/44/AC (wedi ebostio 4.1.22)

Lleoliad : **Trwyn Cae Iago, Borth Y Gest**, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TW

Bwriad : Diwygio amod 2 ar ganiatad Cynllunio C18/0078/44/LL (Unol a'r cynlluniau) er mwyn ymgymryd â diwygiadau mewnol ac allanol i ddyluniad y tŷ.

PENDERFYNIAD :- GWRTHWYNEBU oherwydd y rhesymau canlynol :-

- **Mae'r Cyngor Tref wedi gwrthwynebu'r cais gwreiddiol am iddo fod yn or-ddatblygiad.**
- **Mae'r diwygiad yma i'r cais gwreiddiol yn ymestyn y ffin adeiladu ac felly yn fwy o or-ddatblygiad i'r safle ac o'r herwydd mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais.**

(c) Rhif Cais .: C21/1248/44/DT (wedi ebostio 4.1.22)

Lleoliad : **Bryn Awel, 1 Stryd Ralph**, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UA

Bwriad: Creu agoriad ffenestr newydd ar llawr daear a llawr cyntaf y wal dalcen a lledu ffenestr bae bresennol i flaen yr eiddo

PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD

(Wedi derbyn ac ebostio ar 10.1.22)

(ch) Rhif Cais .: C21/1200/44/DT

Lleoliad : Ty Friog, Porthmadog, LL49 9PF

Bwriad : Adeiladu Modurdy cysylltiol /

PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD

Death y cyfarfod i ben am 20.10

Marian Roberts
(Clerc)

16.01.2022